


Defnyddio TG Conwy o Bell – Mynediad i VPN SSL Porth Netscaler

1. Yn gyntaf, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cysylltu'ch gliniadur â rhwydwaith Wi-Fi eich cartref trwy ddewis eich rhwydwaith a nodi'r cyfrinair.




Cliciwch ar eicon y rhwydwaith ar waelod ochr dde eich bwrdd gwaith Windows a dewis y rhwydwaith Wi-Fi rydych am gysylltu ag o o'r rhestr a chlicio ar "Connect". Efallai y bydd gofyn i chi roi cyfrinair y rhwydwaith.


2. Cliciwch ddwywaith ar yr eicon Netscaler Gateway ar eich bwrdd gwaith




3. Y tro cyntaf i chi redeg yr ategyn Gateway, mae'n bosib' y bydd angen i chi ei osod i gysylltu â Chonwy – rhowch y cyfeiriad <https://remote.secure.conwy.gov.uk> a chliciwch ar **CONNECT**




4. Ni fydd y mwyafrif o ddefnyddwyr yn gweld y dudalen hon ond os ydych chi dyma beth i'w wneud. Dewiswch y dystysgrif sy'n cynnwys eich enw defnyddiwr (*nid yr un gyda'ch cyfeiriad e-bost*), yna cliciwch **OK**




5. Rhwch eich enw defnyddiwr a chyfrinair arferol (y rhai a ddefnyddiwyd i fewngofnodi i'ch gliniadur). Darllenwch a thiciwch y blwch i dderbyn y telerau a'r amodau, yna cliciwch **LOGON**



6. Ar ôl i chi gysylltu gallwch gau'r ffenestr Netscaler Gateway gan ddefnyddio'r **X** ar gornel dde uchaf y sgrin. Bydd hyn yn symud yr eicon i'ch cilfach lle bydd yn troi'n las i ddangos eich bod wedi cysylltu.




7. I allgofnodi eich sesiwn, cliciwch ar y clo glas yn y gilfach â'r botwm ochr dde ar y llygoden a dewis **LOG OFF**. Bydd hyn yn rhyddhau'ch trwydded i bobl eraill ei defnyddio.



8. Wrth gysylltu yn y dyfodol, bydd y system yn mynd â chi'n syth i'r sgrin fewngofnodi. Mae'n cofio'r enw defnyddiwr diwethaf a lwyddodd i fewngofnodi o'ch gliniadur – i'r rhan fwyaf o bobl, y cyfan sydd ei angen i chi ei wneud yw rhoi'ch cyfrinair.

9. Os oes gennych sesiwn ar fynd yn barod (e.e. gan eich bod wedi anghofio allgofnodi'n iawn, neu oherwydd problemau â'r rhyngwrdd lle rydych yn gweithio) bydd neges yn gofyn i chi drosglwyddo i'ch sesiwn newydd. Cliciwch y botwm **TRANSFER** – caiff eich sesiwn flaenorol ei chanslo'n awtomatig a dylech allu cael mynediad at weinyddwyr eto o'r sesiwn newydd.



10. Mae'r system yn cynnal nifer o wiriadau diogelwch i sicrhau'ch bod yn defnyddio gliniadur corfforaethol a bod gennych feddalwedd gwrth-firws cyfredol ac ati. Os nad yw'ch gliniadur yn pasio'r gwiriadau diogelwch hyn, ni fyddwch yn gallu mewngofnodi a byddwch yn cael eich dargyfeirio i dudalen mewngofnodi porwr gwe yn lle. Ni fyddwch yn gallu mewngofnodi trwy hwn chwaith. Cysylltwch â'r Ddesg Gymorth TG ar 01492 576033 am gymorth mewn achos fel hyn.